


# HYBIAU LLEIHOU NIWED



Cardiff & Vale **APB**  
Achieving better substance misuse outcomes

**BETH** ✨

✨ **YDYN**

**NHW?** ↘



**CAVDAS**  
**0300 300 7000**  
**info@cavdas.com**  
**www.cavdas.com**

## MATHAU O HYBIAU LLEIHOU NIWED


Ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg mae dau fath o Hyb Lleihau Niwed sy'n helpu i ddiwallu amrywiaeth o anghenion - Hybiau Lleihau Niwed Arbenigol a Fferyllfeydd Cymunedol. Mae'r gwasanaethau y gallwch ddisgwyl eu gweld ar gael yn cynnwys:

### HYBIAU LLEIHOU NIWED ARBENIGOL

- Cyflenwad o offer chwistrellu di-haint (e.e. nodwyddau, chwistrelli, llwyau, hidlwyr, VitC, dŵr di-haint), a ffoil
- Darparu a dychwelyd biniau offer miniog
- Cyflenwi citiau naloxone (chwistrelladwy a thrwynol) a hyfforddiant atal gorddos
- Profion pigo'r croen ar gyfer hepatitis B, hepatitis C a HIV ac atgyfeiriadau i driniaeth
- Pecynnau dresin ar gyfer heintiau bacterol cynnar, a chynghor ar ofal clwyfau
- Pecynnau hunan-brofi ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, ynghyd â chondomau a chynghor iechyd rhywiol
- Gwybodaeth a chynghor arbenigol e.e. chwistrellu mwy diogel, dewisiadau amgen i chwistrellu, steroidau anabolig a chyffuriau sy'n gwella delwedd ac ati.
- Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth e.e. cyffuriau ac alcohol, digartrefedd, timau iechyd ac ati.
- Profi am gyffuriau drwy WEDINOS a chynghor dilynol


## PWY SY'N GALLU DEFNYDDIO'R HYBIAU HYN?

Gall  **unrhyw un a phawb** , o bob cefndir, gael mynediad at hyb lleihau niwed mor aml ag sydd ei angen. Mae Hybiau Lleihau Niwed yn darparu ar gyfer  **pob unigolyn sy'n defnyddio cyffuriau (gan gynnwys steroidau)** , gan deilwra'r gwasanaeth i  **bob angen**  trwy ddull  **cefnogol, empathig a di-feirniadaeth** .



Mae Hybiau Lleihau Niwed  **yn agored i bawb** , felly  **nid oes angen apwyntiad** , maent  **am ddim**  ac yn  **gyfrinachol** !

## FFERYLLFEYDD CYMUNEDOL



- Cyflenwad o offer chwistrellu di-haint (e.e. nodwyddau, chwistrelli, llwyau, hidlwyr, VitC)
- Darparu a dychwelyd biniau offer miniog
- Gwybodaeth a chynghor iechyd arbenigol
- Ymyriadau mân salwch bach, gan gynnwys; Anhwylderau Cyffredin, Haint y Llwybr Wrinol, Haint yn y Gwddf a gwasanaethau brechu (lle bo ar gael)
- Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth e.e. cyffuriau ac alcohol, digartrefedd, timau iechyd, profion STI ac ati.

## A YW UNRHYW WYBODAETH Bersonol yn CAEL Ei CHOFNODI?



Yn gyffredinol, dim ond ychydig bach o wybodaeth bersonol sydd angen ei chofnodi. Mae'n debyg y gofynnir i unigolion am lythrennau cyntaf eu henw, eu dyddiad geni, a gwybodaeth am ddemograffig sylfaenol a sylweddau. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall staff ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl a helpu i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Ar gyfer ymyriadau lle mae angen apwyntiadau dilynol (e.e. profion, cyflenwi naloxone) Pwy sy'n Gallu Defnyddio'r Hybiau hyn?gellir gofyn i unigolion ddarparu gwybodaeth fanylach.